# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **27 Gorffennaf 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Catrin Wager** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32402** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet:

- Gymeradwyo cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) mewn perthynas â rheoli cŵn ledled y Sir yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig a atodir **(Atodiad 1a)**, ar y sail ei fod yn fodlon bod y prawf o dan adran 59 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 wedi ei gwrdd.

- Cymeradwyo costau cyflwyno GDMC (arian untro a bid dilynol am arian blynyddol.

- Awdurdodi'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i ymgymryd â chyflwyno'r GDMC.

Y rheswm pam bod angen penderfyniad:

- Swyddogaeth Awdurdodau Lleol a neb arall yw creu GDMC. Yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod Lleol, mae creu gorchymyn o'r fath yn swyddogaeth weithredol a'r Cabinet sy'n gyfrifol amdani.

### 2. CYFLWYNIAD

Mae Deddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("Deddf 2014") yn darparu fframwaith o rymoedd i unigolion a sefydliadau er mwyn gallu taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ("GDMC") i ymdrin â niwsans(au) neu broblem(au) penodol mewn mannau penodol. Ymddygiadau y pennir eu bod yn cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd cymunedau lleol yw'r ymddygiadau problemus hyn. Gall gorchmynion o'r fath barhau am hyd at 3 blynedd.

Mae ymddygiadau o'r fath yn gallu cwmpasu, ymhlith materion eraill, ymddygiadau yn gysylltiedig â rheoli cŵn.

Cyn gwneud gorchymyn o'r fath rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon bod y prawf o dan adran 59 o'r Ddeddf wedi ei gwrdd, sef –

- bod sail resymol dros gredu fod y gweithgareddau hyn mewn man cyhoeddus wedi cael, neu yn debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn y cyffiniau;
- bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn fynych ac yn barhaus eu natur;
- bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn afresymol; a
- eu bod yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a nodir.

Yn ogystal, cyn gwneud gorchymyn mae rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'r Heddlu a'r gymuned ehangach.

Mae GDMC yn gweithio drwy alluogi i ymddygiadau gael eu herio a rhoi cyfle i'r unigolyn ddod â'r gweithgaredd i ben yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Os nad oes modd gwneud hyn mae modd cymryd camau gorfodaeth, gan gynnwys cyflwyno rhybudd cosb benodedig a/neu dwyn erlyniad am y drosedd o fethu â chydymffurfio â gofyniad neu waharddiad mewn GDMC.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 18 Mai 2021 yn argymell fod y Cabinet yn cymeradwyo proses o ystyried a ddylid cyflwyno GDMC ledled y sir mewn perthynas â rheoli cŵn, ac y bydd cyfnod o ymgynghori yn digwydd am 28 diwrnod ynglŷn â'r mater, gan ddychwelyd y mater i'r Cabinet er mwyn penderfynu a ddylid cyflwyno y GDMC.

Roedd yr adroddiad hwnnw yn darparu achos cychwynnol dros gyflwyno'r GDMC, yn seiliedig ar ddarpariaethau'r hen Orchmynion Rheoli Cŵn a wnaed gan yr Awdurdod yn 2013[1] ond gyda gwahaniaethau fel a ganlyn:

| Lleoliad traeth | Trefniadau o dan y Gorchmynion Rheoli Cŵn | Trefniadau o dan y Gorchymyn Arfaethedig |
|---|---|---|
| Tywyn | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r gorllewin o Ffordd Warwig (Warwick Place Road) a man i'r gorllewin o ben gogleddol Plas Edwards | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r gorllewin o Ffordd Warwig (Warwick Place Road) a man i'r gorllewin o Ffordd y Pier (Pier Road) |
| Friog | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng 'pillbox' yn ne'r traeth a man i'r gorllewin o'r maes golff | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r de o'r 'pillbox' yn ne'r traeth a man i'r gorllewin o gyffordd Ffordd y Traeth |

[1] Cyn i Ddeddf 2014 ddod i rym, roedd grym yr Awdurdod Lleol i daclo problemau rheoli cŵn yn tarddu o'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 a'r Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) OS 2007/702. Yn unol â'r darnau hyn o ddeddfwriaeth, gwnaeth yr Awdurdod y Gorchmynion Rheoli Cŵn canlynol: Gorchymyn Gwahardd Cŵn (Cyngor Gwynedd) 2013, Gorchymyn Baeddu Tir Gan Gŵn (Cyngor Gwynedd) 2013, a'r Gorchymyn Cŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd (Cyngor Gwynedd) 2013.

| | | |
|---|---|---|
| Cricieth - Marine | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y cyfan o'r traeth | Dim gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth |
| Abersoch | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng yr harbwr a man i'r dwyrain o Lôn Golff | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng Pen Bennar a man i'r dwyrain o Lôn Golff |
| Porthor | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y cyfan o Draeth Porthor | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar Draeth Porthor i'r dwyrain o Gaffi Porthor |

Ceir copi o'r Gorchymyn Arfaethedig yn **Atodiad 1a**.

Yn seiliedig ar yr achos a gyflwynwyd ar y pryd, penderfynodd y Cabinet fod cyfiawnhad dros symud i'r cam nesaf a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Bellach, mae angen i'r Cabinet ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad ac, yn sgil yr ymgynghoriad hwnnw, penderfynu a yw'n cymeradwyo cyflwyno y GDMC.

Bydd y GDMC yn ymwneud â thri agwedd o reoli cŵn:

1. <u>Gwahardd cŵn:</u> Bydd cŵn yn cael eu gwahardd o 18 traeth penodol rhwng 1 Ebrill a 30 Medi bob blwyddyn. Mae'r ardaloedd gwahardd ar y traethau hyn wedi eu diffinio yn fanwl mewn cynlluniau (mapiau) sydd ynghlwm â'r Gorchymyn Arfaethedig. Yn ogystal, bydd cŵn yn cael eu gwahardd drwy gydol y flwyddyn o'r llefydd canlynol: llefydd awyr-agored cyhoeddus lle ceir arwydd "Ardal Eithrio Cŵn" neu eirfa tebyg; llefydd chwarae i blant; tiroedd hamdden o fewn ffiniau ysgolion, colegau a phrifysgolion; meysydd chwarae a chyfleusterau chwaraeon.
2. <u>Dim baeddu:</u> Pan fydd ci yn baeddu, bydd gofyn i'r sawl sydd yn gyfrifol dros y ci glirio'r baw ar unwaith. Bydd y rheol hwn yn berthnasol drwy gydol y flwyddyn i bob man awyr-agored mae gan y cyhoedd fynediad iddo.
3. <u>Cŵn ar dennyn drwy gyfarwyddyd:</u> Bydd gofyn i'r sawl sydd yn gyfrifol dros gi roi'r ci hwnnw ar dennyn, os yw person sydd wedi ei awdurdodi yn briodol gan y Awdurdod Lleol yn cyfarwyddo hynny. Bydd y rheol hwn yn berthnasol drwy gydol y flwyddyn i bob man awyr-agored mae gan y cyhoedd fynediad iddo.

## 3. RHESWM A CHYFIAWNHAD DROS Y PENDERFYNIAD

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 24 Mai 2021 a daeth i ben ar 21 Mehefin 2021.

Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg a bu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod. Rhoddwyd copi o'r Gorchymyn Arfaethedig a phecyn gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod yn ogystal â chopïau caled ym mhob llyfrgell / Siop Gwynedd drwy'r Sir.

Gyrrwyd negeseuon e-bost i randdeiliaid allweddol yn gwahodd iddynt gyfrannu at yr ymgynghoriad, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Heddlu Gogledd Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, cynghorau cymuned a thref, y sector addysg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, deiliaid tiroedd o bwys a mudiadau perchnogion cŵn.

Yn ogystal, rhoddwyd holiadur ar y wefan er mwyn hwyluso cyfranogiad y cyhoedd i'r ymgynghoriad.

Derbyniwyd cyfanswm o 1,324 o ymatebion i'r holiadur. Yn ogystal, derbyniwyd cyfanswm o 7 e-bost neu neges arwahan yn mynegi barn ar yr ymgynghoriad.

Mae adroddiad manwl o'r ymateb a ddaeth i law o'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys yn **Atodiad 2**.

Yn gryno, mae'r ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r holiadur yn cadarnhau'r canlynol:

- 80% o'r farn bod baw ci yn broblem yn eu hardal nhw
- 78% o blaid gwaharddiad cŵn tymhorol o'r 18 traeth a ddynodwyd yn y Gorchymyn Arfaethedig.
- 74% o blaid gwaharddiad cŵn gydol y flwyddyn o diroedd awyr agored cyhoeddus ble mae arwydd 'Ardal Eithrio Cŵn'
- 95% o blaid gwaharddiad cŵn gydol y flwyddyn o lefydd chwarae plant
- 89% o blaid gwaharddiad cŵn gydol y flwyddyn o diroedd hamdden ysgolion, colegau ac ati
- 93% o blaid gwaharddiad cŵn gydol y flwyddyn o feysydd chwarae
- 85% o blaid gwaharddiad cŵn gydol y flwyddyn o gyfleusterau chwaraeon eraill
- 99% o blaid rheol bod rhaid i bobl lanhau ar ôl i'w ci baeddu mewn man cyhoeddus
- 95% o blaid rheol yn galluogi swyddog awdurdodedig i ofyn i unrhyw un sy'n gyfrifol am gi i'w roi ar dennyn.
- 61% o'r farn nad oedd angen cyflwyno unrhyw reol neu reolau eraill tu hwnt i'r hyn sydd eisioes yn Gorchymyn Arfaethedig.

At ei gilydd, roedd mwyafrif clir o'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r holiadur yn gefnogol o gynnwys y Gorchymyn Arfaethedig fel ag y mae. Nid oedd consensws o blaid ehangu sgôp y GDMC i gynnwys rheolau ychwanegol.

Yn yr amgylchiadau, argymhellir bod y meini prawf o dan adran 59 o Ddeddf 2014 wedi eu cyrraedd a bod y Cabinet yn bwrw ymlaen i gymeradwyo GDMC yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig.

Mae asesiad cydraddoldeb a baratowyd yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi ei atodi yn **Atodiad 3**. Mae'r asesiad hwn yn ddiweddariad yn dilyn yr ymgynghoriad o'r un a baratowyd gyda'r adroddiad cyntaf i'r Cabinet ar 18 Mai 2021. Tra bo'r asesiad fel y'i diweddarwyd yn cyfarch materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, daethpwyd i'r casgliad nad oedd rheswm teilwng wedi ei ddatgelu i beidio â pharhau gyda'r broses o gyflwyno'r GDMC yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig.

Yn unol ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r adroddiad hwn hefyd wedi ystyried egwyddorion y ddeddfwriaeth, ac yn benodol y cysyniad o'r 5 ffordd o weithio fel y dangosir isod:

<u>Hirdymor:</u> Bydd y GDMC yn parhau mewn lle am 3 blynedd gyda'r bwriad o newid agweddau pobl tuag at eu hymddygiad mewn mannau cyhoeddus o ran rheoli cŵn. Yn y tymor hirach gobeithir y bydd hyn yn cyfrannu tuag at agweddau a pharch mwy cyfrifol tuag at warchodaeth o'n cymunedau a dealltwriaeth o'r angen i ystyried yr effaith ar eraill.

Atal: Bydd GDMC yn helpu i leihau'r niferoedd o ymddygiadau gwrthgymdeithasol o ran rheoli cŵn ac yn help i atal y sefyllfa rhag dirywio yn y dyfodol.

Integreiddio: Mae'r GDMC yn cyfarch nodweddion nifer o sefydliadau (Cyngor Gwynedd, yr Heddlu, cynghorau cymuned, grwpiau cymunedol/perchnogion cŵn). Bydd hefyd yn cyfrannu at amcanion yr Heddlu sef lleihau troseddau a gwneud y strydoedd a llefydd cyhoeddus yn fwy diogelu i drigolion ac ymwelwyr ac at uchelgais yr Awdurdod o weld cymunedau sy'n llwyddo a ffynnu.

Cydweithio: Byddai'r datblygiad yma o ganlyniad i ymgynghoriad gyda'r Heddlu, cynghorau cymuned, grwpiau cymunedol a pherchnogion cŵn.

Cynnwys: Mae adrannau amrywiol o'r Awdurdod wedi bod ynghlwm â thrafodaethau cychwynnol, ac mae ymgynghoriad cyhoeddus bellach wedi digwydd cyn penderfyniad terfynol ar y cais.

Ar ôl derbyn cyfarwyddiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, gwnaed mân ddiwygiadau argraffyddol neu dechnegol i'r Gorchymyn Arfaethedig. Nid yw'r diwygiadau hyn yn effeithio cwmpas nac effaith fwriedig y Gorchymyn Arfaethedig.

## 4. COSTAU ARIANNOL

Roedd yr adroddiad dyddiedig 18 Mai 2021 yn cyfeirio at yr angen i ail osod arwyddion er adlewyrchu'r gorchymyn newydd a rhagweler cost un tro o £18k i'w ail osod. Mae'r adborth o'r holiadur ymgynghori hefyd yn darparu arweiniad defnyddiol a phwysig iawn o ran y meysydd lle mae'r cyhoedd yn ystyried y mae angen blaenoriaethu adnoddau o ran gorfodaeth. Roedd dymuniad i weld mwy o bresenoldeb gorfodaeth yn dod allan yn hynod gryf a hefyd disgwyliad buasai'r Cyngor yn darparu mwy o finiau ar gyfer baw cŵn.

Heb ymrwymiad ariannol gan y Cyngor ni fydd yn bosibl gwireddu'r GDMC yn llawn ac felly mae'r tabl isod yn crynhoi'r anghenion ariannol sydd wedi ei amlygu uchod.

| GWEITHGAREDD | Costau Blwyddyn 1 | Costau Blynyddoedd dilynol |
|---|---|---|
| **Arwyddion Rhybudd - tiroedd a thraethau**<br>Codi arwyddion newydd, tynnu'r hen rai i lawr, cynnal a chadw blynyddol ac adnewyddu. | £ 18,000 | £ 3,000 |
| **Biniau Baw Cŵn**<br>Darparu cynwysyddion addas ychwanegol, dosbarthwr bagiau, gwasanaethu a chael gwared â'r gwastraff yn ddiogel. | £ 12,500 | £ 5,000 |
| **Capasiti Gorfodi**<br>Cyflogi 2 Warden Gorfodaeth Stryd (Rheoli Cŵn) fydd a briff ond ar GDMC ond a phwyslais cryf ar godi ymwybyddiaeth. Cost yn cynnwys trafnidiaeth. | £ 67,620 | £ 67,620 |
| **CYFANSWM** | £ 98,120 | £ 75,620 |

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Y Cabinet i gymeradwyo cyflwyno GDMC rheoli cŵn yn unol â’r Gorchymyn Arfaethedig.

Os y’i cymeradwyir, bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y Gorchymyn dan sêl cyn gynted a bo modd ond ddim cynt na 5 diwrnod clir ar ôl cyhoeddi penderfyniad y Cabinet.

Os y’i cymeradwyir, bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi’r Gorchymyn wedi ei selio ar wefan y Cyngor.

Os y’i cymeradwyir, bydd yr Awdurdod Lleol yn gosod arwyddion y mae’n ei ystyried yn ddigonol drwy’r sir gan dynnu sylw’r cyhoedd i fodolaeth ac effaith y Gorchymyn.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A WNAED CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Mae’r ymgynghoriadau hyd yma yn unol â’r hyn a nodir yn yr adroddiad.

**Atodiadau**

**Atodiad 1a** - Gorchymyn Arfaethedig
**Atodiad 1b** - Mapiau
**Atodiad 2** - Adroddiad o’r Ymgynghoriad
**Atodiad 3** - Asesiad Cydraddoldeb

## 7. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Mae’r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### Y Pennaeth Cyllid:

Byddai’r Cabinet yn medru ystyried ariannu costau un tro o £30,500, ynghyd â £67,620 o gyllideb refeniw ychwanegol eleni o’r Gronfa Trawsffurfio. Fodd bynnag, gallai ariannu’r gost refeniw parhaol yma olygu'r angen i'r Cyngor orfod gwireddu mwy o arbedion ariannol mewn meysydd eraill erbyn 2022/23. Er hynny, yn yr achos benodol yma, er gwaetha'r risg, deallaf sut byddai’r gweithrediad yn cyfarch blaenoriaethau pobl Gwynedd. Felly, deallaf os yw’r Cabinet am roi ystyriaeth briodol i flaenoriaethu'r cais am £75,620 o gyllideb refeniw parhaol. Yn effeithiol, byddai penderfyniad ar hyn rwan yn rhagfarnu 'bid' am adnoddau yng nghyllideb 2022/23, ac os bydd y Cabinet yn cadarnhau'r flaenoriaeth, yna byddwn yn cynllunio yn briodol.